Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

# Papur Bwrdd

| Teitl y Papur: | Adroddiad Perfformiad 2019/20 - Trydydd Chwarter |
|---|---|
| Cyfeirnod y Papur: | 20-03-B12 |
| Noddir y Papur Gan: | Clare Pillman |
| Cyflwynir y Papur Gan: | Y Tîm Gweithredol |

| Diben y Papur: | Craffu / Penderfyniad |
|---|---|
| Argymhelliad: | Gofynnir i'r Bwrdd graffu ar berfformiad CNC yn ystod trydydd chwarter 2019/20 a rhoi sylw penodol i'r:<br>• Cynnydd yn erbyn pob mesur ar y Dangosfwrdd Perfformiad a'r camau y mae CNC yn eu cymryd |

| | |
|---|---|
| **Effaith:** | Sut y mae'r papur hwn yn helpu CNC i gyflawni'r ffyrdd o weithio y cyfeirir atynt yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol o ran:<br><br>**Atal problemau rhag digwydd:** Mae rheoli perfformiad effeithiol yn offeryn allweddol er mwyn ceisio deall gwaith CNC. Mae'n caniatáu i ni gymryd camau ataliol os nad yw perfformiad a chyflawniad fel y dylai fod. |

## Mater

1. Mae trydedd rownd eleni o adrodd ar berfformiad corfforaethol, o 1 Hydref 2019 hyd at 31 Rhagfyr 2019, bellach wedi'i chwblhau, ac mae'n dangos ein sefyllfa dri chwarter ffordd trwy'r flwyddyn. Paratowyd yr adroddiad perfformiad sydd yn yr atodiad er mwyn i'r Bwrdd allu craffu arno.

## Cefndir

2. Yr adroddiad ar berfformiad corfforaethol yw un o brif ffyrdd y Bwrdd o graffu ar yr hyn rydym yn ei gyflawni.

3. Datblygwyd yr adroddiad ar berfformiad (Atodiad 1) fel rhan o'r broses o baratoi Cynllun Busnes 2019/20 gyda'r Bwrdd, y Tîm Gweithredol a Phwyllgor Cyllid, Cynllunio a Pherfformiad y Bwrdd. Mae'n cynnwys:

- **Dangosfwrdd** sy'n rhoi trosolwg o berfformiad yn erbyn mesurau 2019/20 a amlinellwyd gan Amcan Llesiant
- **Tabl** yn adlewyrchu'r cyswllt rhwng ein mesurau, deg blaenoriaeth ein Cynllun Busnes a'n Hamcanion Llesiant
- Manylion ar gyfer pob un o fesurau'r dangosfwrdd yn nodi:

- pam y mae'r gweithgaredd sy'n gysylltiedig â phob mesur yn bwysig;
- a ydym yn cyrraedd targedau ai peidio;
- beth rydym yn ei wneud er mwyn cyrraedd targedau os nad ydym ar y trywydd cywir.

4. Dyma'r trydydd adroddiad yn unol â'n Cynllun Busnes presennol: hon yw'r ail flwyddyn adrodd sy'n gysylltiedig â'n Cynllun Corfforaethol hyd at 2022.

## Asesu

5. Mae crynodeb o'n perfformiad hyd at ddiwedd ail chwarter 19/20 i'w weld isod:

| | Chwarter 1 (1 Ebrill - 30 Mehefin 2019) | Hyd at Chwarter 2 (1 Ebrill 2019 - 30 Medi 2019) | Hyd at Chwarter 3 (1 Hydref 2019 - 31 Rhagfyr 2019) |
|---|---|---|---|
| 'Gwyrdd' | 16 | 12 | **12** |
| 'Oren/Gwyrdd' | 0 | 0 | **0** |
| 'Oren' | 6 | 9 | **11** |
| 'Coch/Oren' | 1 | 1 | **0** |
| 'Coch' | 3 | 4 | **3** |
| Wedi'i oedi | 0 | 0 | **0** |
| **Cyfanswm** | **26** | **26** | **26** |

6. Gofynnir i'r Bwrdd graffu ar yr adroddiad perfformiad ar gyfer trydydd chwarter 2019/20. Yn ystod Chwarter 3, mae'r gwelliannau a ganlyn wedi digwydd:

- Mae dyrannu cyllid grant wedi symud o goch i oren
- Mae rheoli cronfeydd dŵr mewn modd diogel a chyfrifol wedi symud o goch-oren i oren
- Mae rheoli ein rhaglenni ar gyfer pysgodfeydd cynaliadwy wedi symud o oren i wyrdd
- Mae datblygu ein cytundebau cydweithio ag Iechyd Cyhoeddus Cymru a Chwaraeon Cymru wedi symud o oren i wyrdd
- Mae symud ymlaen â'r gwaith o ddatblygu'r sefydliad wedi symud o oren i wyrdd

Er hyn, mae nifer o feysydd wedi dirywio yn ystod y chwarter:

- Mae lleihau ein hôl troed carbon wedi symud o wyrdd i oren
- Mae gwella rheolaeth tir Cymru yn y dyfodol wedi symud o wyrdd i oren
- Mae paratoi proses lywio a rhaglen seilwaith gwyrdd wedi symud o wyrdd i oren

Ac mae'n bosibl y bydd rhai Mesurau, er eu bod yn wyrdd ar hyn o bryd, wedi symud i oren erbyn diwedd y flwyddyn:

- Dod â phren sydd wedi'i reoli'n gynaliadwy i'r farchnad
- Cyflenwi ein rhaglen ynni adnewyddadwy
- Boddhad cwsmeriaid

Ceir eglurhad o'r newidiadau hyn a 'llwybrau tuag at wyrdd' yn nes ymlaen yn y papur hwn.  Rydym wedi cymhwyso'r meini prawf sgorio Coch/Oren/Gwyrdd yn drylwyr er mwyn sicrhau tryloywder:  mae nifer o'r newidiadau hyn o ganlyniad i achosion o oedi yn ystod y flwyddyn a disgwylir y byddant yn cael eu hunioni yn y dyfodol, ond nid erbyn diwedd y flwyddyn mewn rhai achosion, neu achosion lle mae ein dull gweithredu wedi newid gan fod amgylchiadau wedi newid ar ganol blwyddyn. Rheoli addasol yw un o egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy (SMNR) ac rydym wedi gorfod addasu i newid mewn amgylchiadau yn ystod y flwyddyn.  Mae'r adroddiad hefyd yn nodi achosion lle gallai problemau godi yn nes ymlaen yn y flwyddyn.  Bydd yn cymryd blynyddoedd lawer i nifer o'r mesurau ddod yn wyrdd – eglurir hyn ar gyfer y mesur penodol sy'n cael ei effeithio.

7. Mae'r wybodaeth am ymgorffori SMNR (rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy) a chymhwyso ei egwyddorion, ynghyd â chymhwyso Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 wedi'i chynnwys yn yr adroddiad hwn er mwyn gallu cyfeirio ati.  Bydd hyn yn sail i'n hadroddiad blynyddol y mae angen iddo gynnwys adroddiad ar gynnydd yn erbyn Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 (gan gynnwys dyletswydd Bioamrywiaeth Adran 6) a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

8. Yn dilyn gweithredu Cynllun y Sefydliad, rydym yn dal i weld llawer o fynd a dod ymhlith y staff, gyda thimau newydd a staff newydd yn cael eu cyflwyno, gan ddatblygu arbenigedd yn y timau newydd hynny a gwaith recriwtio mewnol ac allanol parhaus – rydym hefyd yn gweithredu â thua 200 o swyddi gwag ar hyn o bryd, ac yn gweithio'n galed i'w llenwi. Mae hyn wedi cael effaith ar lawer o'n mesurau ac ar draws y sefydliad yn ei gyfanrwydd wrth i dimau newydd a'u gwaith gael ei sefydlu: er hyn, bydd manteision clir ar ôl i'r strwythurau newydd hyn gael eu llenwi ac ar ôl diweddaru sgiliau'r staff.

9. Ar gyfer y flwyddyn nesaf, rydym yn adolygu ein dull o ymdrin â mesurau ar lefel y dangosfwrdd hwn wrth i ni ddatblygu ein Cynllun Busnes newydd – mae hyn yn debygol o arwain at lai o fesurau lefel uchel, â llawer o'r manylion sydd i'w gweld yn ein hadroddiadau presennol yn cael eu cofnodi ar lefel y Byrddau Busnes sy'n ymwneud â'r gwasanaethau a ddarperir gennym – er enghraifft, rheoli perygl llifogydd, rheoli adnoddau naturiol, tystiolaeth a rheoleiddio.  Mae'r penawdau ar gyfer y dangosfwrdd diwygiedig i'w gweld yn y Cynllun Busnes ar gyfer 2020/21 ac yn cael eu cyflwyno mewn papur Bwrdd ar wahân.

10. Rydym wedi amlinellu pob un o'r mesurau isod, er mwyn rhoi trosolwg cytbwys o berfformiad presennol CNC: nodir hyn gan yr Amcan Llesiant. Eleni, rydym wedi gosod targedau uchelgeisiol iawn.  O ganlyniad i effaith y gwaith o ad-drefnu ein sefydliad, ansicrwydd ynglŷn â gadael yr UE a newid mewn amgylchiadau ar ganol blwyddyn nid ydym yn rhagweld y byddwn yn cyrraedd pob un o'n targedau ac y bydd gan bob mesur statws gwyrdd erbyn diwedd y flwyddyn.

**Hyrwyddo Amgylchedd Cymru a defnydd cynaliadwy o adnoddau naturiol Cymru**

11. **Gwyrdd – Gweithio gydag eraill i ddatblygu gweledigaeth a rennir ar gyfer 2050 o ran amgylchedd naturiol Cymru**

    Ar hyn o bryd mae'r mesur hwn ar y trywydd iawn. Mae gennym bellach gynllun manwl, sy'n amlinellu'r camau allweddol a'r dull gweithredu, pecynnau gwaith a'r adnoddau sydd eu hangen. Cymerodd tua 50 o gydweithwyr ran yn ein digwyddiad gweithdy staff #Tîm CNC ym mis Tachwedd, a chafwyd syniadau defnyddiol iawn. Byddwn yn symud ymlaen ymhellach â'r gwaith hwn gyda rhanddeiliaid allweddol yn Chwarter 4. Disgwylir y bydd y weledigaeth gyffredin yn cael ei rhoi ar waith yn hydref 2021.

12. **Gwyrdd – Gweithio gydag eraill i ddatblygu ein Datganiadau Ardal**

    Mae'r gwaith hwn ar y trywydd cywir a disgwylir y bydd y set gyntaf o saith Datganiad Ardal yn cael ei chyhoeddi ddiwedd mis Mawrth 2020. Er ein bod yn dal i weithio gyda rhanddeiliaid, rydym yn defnyddio casgliadau ymgysylltu sydd wedi digwydd hyd yn hyn i gynhyrchu gwybodaeth seiliedig ar dystiolaeth a fydd yn cael ei rhannu trwy ein tudalennau gwe. Rydym wedi cytuno ar gynllun a chynnwys y Datganiadau Ardal gan sicrhau eu bod yn cyflawni gofynion Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2015 a'n cyfrifoldebau hygyrchedd digidol. Gan y byddant ar y we, rydym yn gweld y Datganiadau Ardal a gyhoeddir ddiwedd mis Mawrth fel rhai 'ar adeg benodol': gellir eu diweddaru'n rheolaidd yn dilyn y cyhoeddiad cychwynnol.

    Yn ystod Chwarter 4, byddwn yn cwblhau'r Datganiadau Ardal, gan edrych ar gamau gweithredu sy'n codi er mwyn ystyried cyfleoedd i weithio ar draws ardaloedd ac ar y raddfa ofodol briodol. Byddwn hefyd yn datblygu ein dull o werthuso'r gwaith a gyflawnwyd drwyddynt yn 2020/21 ac yn adolygu'r gwersi a ddysgwyd yn ystod y flwyddyn hon.

13. **Oren – I gefnogi'r datganiad o argyfwng hinsawdd, lleihau ein hôl troed carbon a galluogi sector cyhoeddus i ddatgarboneiddio**

    Rydym wedi gwneud cynnydd da â sawl agwedd ar y mesur hwn: mae ein Cynllun Gweithredu Carbon Bositif cyntaf bellach wedi'i gwblhau yn ei ffurf ddrafft, ac rydym yng nghanol trafodaethau cynhyrchiol gyda Llywodraeth Cymru wrth i ni helpu i ddatblygu rhaglen waith argyfwng hinsawdd gychwynnol ar gyfer Cymru. Mae prosiect Adfywio Cyforgorsydd Cymru yn gwbl weithredol erbyn hyn ac mae llawer o waith wedi'i wneud gyda Llywodraeth Cymru er mwyn sefydlu rhaglen weithredu mewndir genedlaethol, a fydd yn cael ei gyrru yn ei blaen yn 2020/21.

    Mae ein hôl troed carbon ni ar gyfer adeiladau a theithio yn dal i ostwng ac mae'n is na'r targedau rydym wedi'u gosod ar ein cyfer ni ein hunain.

    Mae'r mesur hwn wedi'i osod yn y categori oren oherwydd oedi â'n seilwaith Cerbydau Trydan a'n safleoedd arfaethedig ar gyfer hunangyflenwi ynni adnewyddadwy. Amlygodd ein prosiect arddangos seilwaith cerbydau trydan nifer o faterion difrifol yr oedd angen i ni eu datrys cyn bwrw ymlaen ymhellach. Rydym yn defnyddio'r gwersi a ddysgwyd o hyn i ddatblygu polisi a chanllawiau ar gyfer gosod

pwyntiau gwefru yn y dyfodol.  Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod cam nesaf y prosiect yn mynd yn ei flaen yn fwy hwylus; mae hyn yn debygol o gael ei gario drosodd i 2020/21.

Rydym hefyd wedi gorfod diwygio nifer ein safleoedd hunangyflenwi ynni adnewyddadwy o chwe safle i lawr i bump eleni, ac mae'n debygol y bydd gwaith ar gyfer rhai o leiaf o'r pump yn cael ei gario drosodd i'r flwyddyn nesaf. Methasom â chael ymgynghorydd addas i'n cynorthwyo â'r gwaith hwn ac mae hynny'n ffactor sydd wedi cyfrannu'n sylweddol at y broblem. Rydym yn symud ymlaen cyn gynted ag y gallwn trwy drefnu gwaith ar ddyddiadau y disgwylir cael caniatâd, comisiynu arolygon strwythurol ymlaen llaw ac ystyried cynllun amgen llai ym Mwcle.

Yn ystod Chwarter 4 byddwn yn symud ymlaen â'n gwaith gyda Llywodraeth Cymru, gan gynnwys y rhaglen waith argyfwng hinsawdd ar gyfer Cymru.  Byddwn hefyd yn symud ein gwaith cerbydau trydan ac ynni adnewyddadwy yn ei flaen cyn gynted ag y gallwn.

14. **Gwyrdd – Symud ymlaen â'r ail Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol.**

Yn ystod y chwarter hwn rydym wedi cyrraedd carreg filltir allweddol – cyhoeddasom yr adroddiad SoNaRR2 interim ym mis Rhagfyr fel adroddiad ar y we. Hyd yn hyn mae wedi cael derbyniad da iawn. Rydym hefyd wedi parhau â gwaith ymgysylltu eang a phenodol gyda'n rhanddeiliaid a bydd hyn yn parhau nes bydd yr adroddiad llawn wedi'i gwblhau ym mis Rhagfyr 2020.

Ar ôl cytuno â Llywodraeth Cymru penderfynasom na fyddem yn cyhoeddi set o ddangosyddion arfaethedig ochr yn ochr â'r adroddiad interim. Yn hytrach, byddwn yn defnyddio dangosyddion sy'n cael eu cyhoeddi mewn lleoedd eraill.  Mae angen i ni fod yn hyblyg a gallu ymateb i'r dystiolaeth rydym yn ei defnyddio i asesu'r dull o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy (SMNR).

Yn ystod Chwarter 4 byddwn yn defnyddio'r adroddiad interim i helpu i gytuno ar y cyfleoedd ar gyfer SMNR a fydd yn mynd i mewn i'r SoNaRR2 terfynol, a fydd yn cael ei gyhoeddi ym mis Rhagfyr 2020.

Byddwn hefyd yn defnyddio'r wybodaeth yn yr adroddiad interim i helpu i ganfod a llenwi bylchau mewn tystiolaeth.

15. **Oren – Dyrannu cyllid grant i gefnogi'r gwaith o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.**

Mae'r mesur hwn bellach wedi symud yn ôl o goch i oren. Ers y chwarter diwethaf mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud ar draws ein holl waith yn y maes hwn.

Mae'r broses cyllid dyranedig strategol wedi cael ei datblygu, ac mae canlyniadau, fformiwlâu a phartneriaid wedi cael eu nodi. Rydym wedi ymestyn 16 o'n grantiau cystadleuol tan ddiwedd mis Mawrth 2020. Rydym yn cwblhau ein tudalennau gwefan ar gyfer ein strategaeth a mecanweithiau grantiau, ynghyd â thudalennau mewnrwyd ar gyfer ein staff.

Yn ystod Chwarter 4, byddwn yn cwblhau cyllidebau, ac yn anfon llythyrau dyrannu at bartneriaid, a byddwn yn cwblhau ac yn cyflwyno hyfforddiant i'n staff.

**Sicrhau bod defnydd tir a dŵr yng Nghymru yn cael ei reoli'n gynaliadwy ac mewn ffordd integredig**

16. **Oren – Gwella rheolaeth tir Cymru yn y dyfodol.**

Rydym yn dal i gynghori a chefnogi Llywodraeth Cymru yn y maes hwn. Fe wnaethom ddychwelyd ein cyflwyniad ein hunain i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar 'Ffermio Cynaliadwy a'n Tir' ym mis Hydref ac rydym yn gweithio er mwyn gwneud y cysylltiadau angenrheidiol â'n gwaith ar Ddatganiadau Ardal. Mae'r gwaith hwn wedi cael ei wneud mewn cyfnod pan mae'r hinsawdd yn newid yn gyflym oherwydd materion yn ymwneud ag ymadael â'r UE. Bydd CNC ar Fwrdd Rhaglen Llywodraeth Cymru ar gyfer cam nesaf y gwaith hwn.

Mae gwaith rhagweithiol i helpu i weithredu Rheoliadau Dŵr newydd yn parhau. Mae is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar lygredd amaethyddol yn gwneud cynnydd. Mae'r bwriad i gyflwyno'r Rheoliadau Llygredd Amaethyddol yn caniatáu i ni gysoni ein rhaglen waith a gwneud paratoadau er mwyn sicrhau ein bod yn barod i gefnogi'r rheoliadau newydd.

Ymdrinnir ag elfennau Newid Hinsawdd y mesur hwn yn y mesur cynharach ar ein hymateb i'r Argyfwng Newid Hinsawdd, felly byddant yn cael eu tynnu o'r adroddiad hwn ac adroddiadau dilynol.

17. **Oren – Creu coetir newydd ac ailblannu safleoedd a gwympwyd.**

Mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud â'r elfennau niferus sy'n ffurfio'r mesur hwn.

Mae ein rhaglen ailstocio yn cynnwys dwy elfen: ein gwaith ailstocio craidd, sy'n plannu coed yn lle rhai sydd wedi cael eu cynaeafu ar gyfer pren, a'n gwaith ailstocio sy'n plannu coed yn lle rhai sydd wedi cael eu cwympo o ganlyniad i'r clefyd *Phytophthora ramorum* sy'n effeithio ar goed llarwydd. Mae cynlluniau ac adnoddau wedi'u neilltuo er mwyn cyrraedd y targed o 1,800 ha, sy'n cynnwys y ddwy elfen hyn, erbyn diwedd y flwyddyn. Er bod cyflwyno safonau lles cliriach i'n contractwyr ym misoedd Tachwedd a Rhagfyr wedi arafu'r gwaith yn Chwarter 3 dylai effeithiau hyn fod wedi'u lliniaru erbyn diwedd y flwyddyn.

Mae ein mesur banc tir yn oren ar hyn o bryd, a hynny ar 5.3%, a bydd yn parhau felly hyd at ddiwedd y flwyddyn, gan arwain at sgôr oren gyffredinol i'r mesur. Ein targed cyffredinol yw cyfyngu'r banc tir i lai na 4% erbyn 2022/23: ein rhaglen ailstocio yw'r llwybr tuag at wyrdd er mwyn cyflawni hyn.

Rydym wedi recriwtio rheolwr rhaglen creu coetir, a fydd yn awr yn datblygu'r rhaglen goetir gyffredinol â hyd at 10 elfen yn ymwneud â phob gweithgaredd creu coetir ar draws CNC. Mae'r elfennau hyn yn cynnwys cefnogaeth i The National Forest, Plant!,

cefnogaeth i gynllun Creu Coetir Glastir, gwaith plannu cydbwyso ar gyfer prosiectau ynni ar Ystâd Coetir Llywodraeth Cymru, ehangu Ystâd Coetir Llywodraeth Cymru drwy gaffael tir a phlannu, a'r prosiect coed canmlwyddiant. Bydd rheolwr y rhaglen yn gweithredu fel canolbwynt i gwsmeriaid yn fewnol ac yn allanol.

Yn ystod Chwarter 3 rydym hefyd wedi recriwtio rheolwr newydd ar gyfer y prosiect coed canmlwyddiant a byddwn yn recriwtio swyddog prosiect newydd ar gyfer Plant! gan weithio gyda Llywodraeth Cymru ar gamau i gynnal y prosiect hwn.

18. **Coch – Gweithredu Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd.**

Cyflwynasom archwiliad manwl o'r mesur hwn i'r Bwrdd ym mis Ionawr, gan egluro'r problemau a'r ffyrdd gorau o symud ymlaen. Bydd y mesur hwn yn parhau'n goch tan ddiwedd y flwyddyn: er hyn, mae 'llwybr tuag at wyrdd' clir er mwyn mynd yn ôl ar y trywydd cywir erbyn diwedd 20/21 cyn belled ein bod yn gallu cael y staff sydd eu hangen er mwyn cyflawni hyn.

Mae'r mesur hwn wedi'i rannu ar draws pedair cydran:

- **Mesurau lleol:** ni fydd y targed hwn yn cael ei gyrraedd erbyn diwedd Mawrth 2020: hyd yn hyn mae staff sy'n gweithio yn y maes hwn wedi bod yn canolbwyntio ar sicrhau nad yw cyrff dŵr yn dirywio ymhellach. Rydym yn rhagweld cyfradd gwblhau o 90% erbyn diwedd y flwyddyn.
- **Mesurau cenedlaethol:** rydym yn disgwyl y bydd yr holl fesurau cenedlaethol a morol wedi'u cwblhau erbyn mis Mawrth 2020 gan ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael ar hyn o bryd.
- **Ymchwilio:** mae nifer yr ymchwiliadau sydd eu hangen wedi cynyddu wrth i fethiannau newydd yr adroddwyd amdanynt yn nosbarthiad interim 2018 ddod i'r amlwg. Mae'r elfen hon yn debygol o barhau'n goch tan ddiwedd y flwyddyn.
- **Heriau ac ymgynghori ar ddewisiadau:** mae'r gwaith hwn yn wyrdd – cafodd ei gyhoeddi ym mis Mehefin: mae'r ymatebion wedi cael eu casglu ac mae'r ymgynghoriad bellach wedi cau.

Mae ein llwybr tuag at wyrdd yma'n cynnwys recriwtio staff ychwanegol â'r sgiliau priodol – saith ar gyfer mesurau lleol a chwech ar gyfer ymchwiliadau. Rydym yn sicrhau rhagor o gyllid i helpu i gyflawni mesurau lleol ac ymchwiliadau lleol. Bydd hyn yn cynyddu ein gallu i gyflawni'r gwaith hwn yn sylweddol. Amcangyfrifwyd y byddai rhagor o adnoddau a ffocws newydd yn ein galluogi i gwblhau 70% o'r rhaglen ymchwilio erbyn diwedd mis Mawrth 2021 a 100% erbyn mis Rhagfyr 2021. Rydym hefyd yn hyderus y gall yr adnodd ychwanegol hwn helpu i sicrhau cyfradd gyflawni o 100% ar gyfer mesurau cenedlaethol a lleol.

19. **Oren – Sicrhau bod cronfeydd dŵr yn dal i gael eu rheoli mewn modd diogel a chyfrifol.**

Rydym wedi gwneud cynnydd cyson â'r mesur hwn, ac mae gennym 'lwybr tuag at wyrdd', ond ni fyddwn yn cyrraedd y targed cydymffurfio o 100% erbyn diwedd y flwyddyn (oherwydd bod rhai agweddau ar y gwaith yn cymryd mwy na blwyddyn i'w cwblhau). Disgwylir y bydd y ganran gydymffurfio yn 95%.

Ar gyfer Chwarter 3, mae cydymffurfiad â'r Ddeddf Cronfeydd Dŵr wedi cynyddu 3% i 90%.

Er bod nifer y mesurau diogelwch a gwblhawyd o fewn yr amserlen ychydig yn is nag yn y chwarter diwethaf, mae pum mesur ychwanegol na fyddant yn cael eu hunioni gan ein bod yn y broses o ddatgomisiynu'r gronfa ddŵr dan sylw. Rydym yn disgwyl i reoli cofnodion aros ar 95%: efallai y bydd gwaith yn cario drosodd i'r flwyddyn nesaf oherwydd cyfnodau amser cydsynio.

Bydd y ddau fesur diogelwch sydd ar ôl (y rhai hynny nad ydynt yn gysylltiedig â'r gronfa ddŵr sydd i'w datgomisiynu) yn cael eu cwblhau erbyn haf 2020 gan nad yw'n syniad da gwneud y gwaith hwn yn ystod misoedd y gaeaf.

Fel y nodwyd yn flaenorol ni fyddwn yn llwyddo i gydymffurfio'n llwyr â'r Ddeddf Cronfeydd Dŵr tan 2022, pan fydd y gwaith sylweddol yn Llyn Tegid wedi'i gwblhau. Rydym wedi ystyried a ellir dod ag unrhyw waith ymlaen, ond nid yw hyn yn bosibl oherwydd yr amseroedd cwblhau hir ar gyfer y gwaith y mae angen ei wneud. Mae ein Grŵp Cynghori ar Reoli Perygl Llifogydd yn monitro'r gwaith hwn yn ofalus.

**Gwella cydnerthedd ac ansawdd ein hecosystemau**

20. **Oren – Gweithredu 'Natur hanfodol' - adfer, creu a gwella cynefin a gwella bioamrywiaeth.**

Mae'r mesur hwn yn dal yn oren ac, am nifer o resymau, mae'n debygol o aros yn oren am weddill y flwyddyn.

Erbyn diwedd Chwarter 3, mae 43% o'r camau gweithredu i fynd i'r afael â statws cadwraeth nodweddion ar safleoedd gwarchodedig wedi cael eu cwblhau. Mae hyn ychydig yn is na'r targed o 50% yr oeddem yn gobeithio amdano. Er gwaethaf ein hymdrechion, mae'n bosibl na fyddwn yn cyrraedd ein targed diwedd blwyddyn o 80%.

Mae'r staff wedi ymateb yn gyflym ac wedi gwneud y gorau o gyfleoedd sy'n deillio o arian ychwanegol i wella'r 53 Gwarchodfa Natur Genedlaethol sy'n eiddo i ni neu sy'n cael eu rheoli gennym. Mae 131 (86%) o'r 153 o brosiectau cadwraeth yn gwneud cynnydd da. O'r 22 sydd ar ôl, mae prinder contractwyr a materion yn ymwneud â chael caniatâd gan berchnogion tir yn golygu na fydd rhai (saith mae'n debyg) wedi cael eu cwblhau erbyn diwedd y flwyddyn ac y byddant yn cael eu hailraglennu ar gyfer 20/21.

Yn dilyn gwaith recriwtio llwyddiannus, mae ein gwaith bioddiogelwch yn symud ymlaen erbyn hyn, a byddwn yn cynnal Archwiliad Bioamrywiaeth CNC gan obeithio y gallwn symud ymlaen ag ef yn Chwarter 4. Rydym hefyd wedi darparu mapiau cysylltedd a chanllawiau manwl i hysbysu Proffiliau Ardal a Datganiadau Ardal, yn ogystal â chyngor ar adeiladu cydnerthedd ecosystemau drwy weithdai a digwyddiadau.

Yn ystod Chwarter 4 byddwn yn datblygu cynllun rhanddeiliaid er mwyn sicrhau cytundeb ar y rhestr o gynefinoedd a rhywogaethau pwysig iawn a fydd yn ffurfio'r

rhestr Adran 7 yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Byddwn yn cydweithio â phartneriaid ac yn cefnogi camau blaenoriaeth drwy ein rhaglen grantiau er mwyn codi proffil a phwysigrwydd gweithio er mwyn adfer a gwella natur, gan ddefnyddio ein hadnoddau presennol a'n hadnoddau cyfalaf ychwanegol gan Lywodraeth Cymru y flwyddyn nesaf.

21. **Coch – Monitro a mynd i'r afael ag iechyd coed a phlanhigion.**

Mae ein perfformiad yma yn dal yn goch.

Mae'r gwaith o gyhoeddi Hysbysiadau Iechyd Planhigion Statudol (SPHN) cyn pen 60 diwrnod ar ôl cadarnhau'r clefyd wedi llithro i 47% yn y trydydd chwarter. Mae hyn oherwydd ein bod wedi gwneud penderfyniad gweithredol i gyfeirio adnoddau oddi wrth *P. ramorum* er mwyn cael gwared ar achosion o OPM (gwyfyn ymdeithiwr y derw) yn yr ail chwarter. Bu'n rhaid cael llawer o drafodaethau gyda rheolwyr tir ynglŷn â rhai achosion o *Phytophthora ramorum* yn ystod Chwarter 3, gan arwain at oedi wrth gyhoeddi hysbysiadau SPHN. Yn ychwanegol at hyn mae heriau yn ymwneud â phrosesau, capasiti a gallu busnesau yn y gwasanaeth hwn sy'n cael eu hystyried dan arweiniad y Pennaeth Stiwardiaeth Tir.

Ar ôl archwilio 102 o safleoedd sydd â 31 Mawrth 2019 fel dyddiad cydymffurfio, mae nifer y prif safleoedd nad ydynt yn cydymffurfio a welwyd ar Ystâd Goed Llywodraeth Cymru ychydig yn is na'r targed corfforaethol o 90% - canran o 88%. Mae hyn yn bennaf oherwydd bod angen rhagor o gamau ar 6 safle yn y Parth Cyfyngu ar y Clefyd (DLZ), yng Nghoed Gwent neu Goedwig Maesyfed. Mae'r timau gweithrediadau perthnasol yn rhoi sylw i hyn.

Ar gyfer Chwarter 4, mae ein llwybr 'yn ôl tuag at wyrdd' ar gyfer y mesur yn canolbwyntio ar wella effeithlonrwydd y ffordd yr ydym yn cyhoeddi hysbysiadau SPHN ymhellach a sicrhau bod ein timau gweithrediadau'n cael safleoedd Ystâd Goed Llywodraeth Cymru i gydymffurfio. Efallai na fyddwn yn 'wyrdd' erbyn diwedd y flwyddyn, ond dylai hyn symud ein gwaith yn ei flaen yn sylweddol.

Mae'r gwaith ehangach ar wella effeithiolrwydd y gwasanaeth hwn ymhellach, ymhlith ffactorau eraill, yn cynnwys cytundeb diwygiedig rhyngom ni a Llywodraeth Cymru ar ein cyfrifoldebau perthynol, egluro'r rhyngweithiad rhwng gwahanol elfennau o reoleiddio, dirprwyo rhagor o'r prosesau asesu i dimau Lleoedd, defnyddio adnoddau mewnol ac allanol, a chynnydd yn y capasiti mewnol.

Byddwn hefyd yn archwilio safleoedd a ddylai fod wedi cydymffurfio â'r gofynion erbyn 31 Awst 2019 yn ystod Chwarter 4 i wneud yn siŵr bod y mesurau gofynnol wedi cael eu cymryd.

22. **Gwyrdd – Rheoli a gweithredu ein rhaglenni ar gyfer pysgodfeydd cynaliadwy**

Mae'r mesur hwn yn ôl yn wyrdd erbyn hyn o ganlyniad i gomisiynu rhagor o Gynlluniau Adfer Pysgodfeydd a Chynefinoedd i'w cyflawni yn y pedwerydd chwarter. Mae cynlluniau ysgolion a chynefinoedd pysgod ar y trywydd cywir ac mae gwaith wedi'i gwblhau ar gyllid grant i Afonydd Cymru (ac o ganlyniad i Ymddiriedolaethau Afonydd) ar gyfer gwaith ar afonydd Gwy, Dyfrdwy, Seiont a Mawddach. Mae ein

gwaith gyda'r Ymddiriedolaeth Genweirio a Croeso Cymru er mwyn hybu genweirio dŵr croyw bron â chael ei gwblhau ac mae cynlluniau ar gyfer lansiad yn Chwarter 4.

Rydym hefyd wedi gwneud cais i Lywodraeth Cymru am gymeradwyaeth i'r is-ddeddfau trawsffiniol (Gwy a Dyfrdwy) yng Nghymru ac rydym wedi gweithio gydag Asiantaeth yr Amgylchedd er mwyn cael yr un peth ar gyfer afonydd yn Lloegr trwy Defra.

Rydym wedi dal i ymgysylltu â rhanddeiliaid a byddwn yn cyflymu'r gwaith hwnnw yn Chwarter 4. Bydd hynny'n cyfrannu'n sylweddol tuag at y gwaith o ddatblygu cynllun gweithredu ar gyfer eogiaid a brithyllod y môr yng Nghymru. Cwblhawyd fersiwn drafft yn Chwarter 3; rydym yn awr yn aros am gadarnhad ynglŷn â'r adnoddau ar gyfer cyflawni'r cynllun.

**Lleihau'r risg i bobl a chymunedau o beryglon amgylcheddol tebyg i lifogydd a llygredd**

23. **Oren – Darparu ymateb effeithiol ac effeithlon o ran rheoli digwyddiadau.**

Mae'r mesur hwn yn parhau'n oren ond mae cynnydd graddol yn cael ei wneud.

Rydym wedi cynnal ein perfformiad uchel o ran asesu digwyddiadau cyn pen un awr o ganlyniad i gyflwyno ein system frysbennu – dosbarthu difrifoldeb digwyddiadau wrth iddynt ddod i mewn er mwyn darparu'r ymateb mwyaf priodol. Rydym yn dal i wella ein hymateb i ddigwyddiadau 'categori uchel' cyn pen 4 awr, â gwelliant o 6% ers y chwarter diwethaf, ac rydym wedi cynnal ein perfformiad ar gyfer y mesur ar gyfer dod â digwyddiadau i ben (cyn pen 30 diwrnod).

Rydym yn dal i weithio gyda chydweithwyr TGCh er mwyn gwella ein system gofnodi ac rydym yn dal i weithio gyda'r staff er mwyn sicrhau rhagor o welliant o ran dod â digwyddiadau i ben.

Oherwydd y ffenestr 30 diwrnod ar gyfer cau digwyddiadau, ar gyfer Chwarter 3 byddwn yn adrodd am weithgaredd ym misoedd Medi, Hydref a Thachwedd 2019, tra bydd Chwarter 4 yn adrodd am fisoedd Rhagfyr 2019, ac Ionawr a Chwefror 2020.

24. **Oren – Cynnal asedau rheoli perygl llifogydd CNC mewn lleoliadau risg uchel mewn cyflwr gweithredu targed.**

Mae ein perfformiad presennol yn oren – canran o 97.7% o'i gymharu â tharged heriol iawn o 99% ac mae'n debyg iawn i'n perfformiad yn Chwarter 1 a Chwarter 2. Mae hwn yn fesur treigl gan fod yna raglen archwilio barhaus, ac mae'n bosibl mai dim ond yn dilyn archwiliad y bydd asedau sy'n methu yn dod i'r amlwg. Mae rhywfaint o'r 'gwaith trwsio' yn waith cynnal a chadw arferol (e.e. mân waith i gynnal adeileddau, torri glaswellt) ac maent wedi cael eu gwneud. Mae ein gwaith cynnal a chadw arferol wedi cael ei wasgu o ganlyniad i gyfyngiadau ar y gyllideb, felly rydym 'nawr yn gweld methiannau sy'n gofyn am waith mwy sylweddol (cyfalaf).

Rydym yn archwilio'r holl opsiynau i gadw'r perfformiad ar y lefelau uchel iawn yr ydym yn eu targedu (mae 99% yn golygu 35 o fethiannau o blith y 3,490 o asedau).

25. **Oren – Mynd i'r afael ag effaith diwydiant a safleoedd gwastraff.**

Mae'r mesur hwn yn dal yn oren: mae hyn yn bennaf oherwydd bod angen recriwtio a hyfforddi staff newydd.

Ar hyn o bryd mae tri safle yn y band perfformiad isaf (Band F), ac mae sylw'n cael ei roi i bob un ohonynt drwy gamau gorfodi. Rhagwelwn y gallai nifer y safleoedd sydd ym Mand F gynyddu yn Chwarter 4 gan fod y flwyddyn gydymffurfio yn flwyddyn galendr yn hytrach na blwyddyn ariannol, felly mae'n bosibl y bydd mwy o safleoedd yn dod i'r amlwg.

Cofnodwyd un achos Categori 1 o beidio â chydymffurfio a 22 achos Categori 2 rhwng Hydref a Rhagfyr. Mae gan bob achos Categori 2 o adeg gynharach yn y flwyddyn ymateb rheoleiddiol priodol ar wahân i ddau: mae'r rhain yn cael eu rhoi i swyddog newydd a dylent fod wedi'u cwblhau erbyn diwedd Chwarter 4.

Ar hyn o bryd mae 32 allan o 34 safle yn safleoedd risg tân uchel sydd â chynlluniau. Roedd un o'r safleoedd hyn yn gweithredu'n anghyfreithlon ac mae wedi cael ei adael, felly nid oes modd cytuno ar gynllun ar hyn o bryd a bydd y safle'n dal i beidio â chydymffurfio nes bydd yn cael ei glirio. Oherwydd hyn, nid yw'r targed hwn yn debygol o gael ei gyrraedd erbyn diwedd y flwyddyn.

26. **Coch – Cyflawni ein rhaglen cyfalaf rheoli perygl llifogydd.**

Fel yr eglurwyd yn adroddiad Chwarter 1, bydd y mesur hwn yn dal yn goch am weddill y flwyddyn, oherwydd bod tri phrosiect adeiladu y disgwylir iddynt gael eu cwblhau yn 2019/20 wedi gweld oedi o ganlyniad i berfformiad contractwyr a materion yn ymwneud â halogi tir. Y safleoedd hyn yw Gollyngfa Tregatwg (y Barri), Crynant (Castell-nedd) a Pharc yr Onnen (Aberystwyth). Mae'r prosiectau hyn bellach yn debygol o gael eu cwblhau yn 2020/21. Ni fydd y perfformiad yn erbyn y dangosydd eiddo yn gwella eleni gan nad oes unrhyw brosiectau adeiladu eraill y gellir eu cyflymu er mwyn eu cwblhau eleni.

Rydym mewn blwyddyn o ddatblygu a chynllunio prosiectau ar gyfer y dyfodol ar ôl nifer o flynyddoedd sydd wedi gweld cynlluniau mawr yn cael eu cwblhau fel y rhai ym Mhontarddulais, Llanelwy a chamau cyntaf y Rhath. Yn 20/21 ein bwriad yw sicrhau amddiffyniad ar gyfer dros 1,000 o eiddo wrth i gynlluniau cyfredol a newydd gael eu cwblhau.

Rydym yn cydnabod bod nifer yr eiddo sydd â lefelau amddiffyniad uwch yn un dangosydd perfformiad. Rydym yn ymchwilio i ddangosyddion hyfyw eraill ar gyfer perfformiad cyffredinol gan obeithio y gellir trafod hyn yn y Grŵp Cynghori ar Reoli Perygl Llifogydd.

**Helpu pobl i fyw bywydau iachach a mwy cyflawn**

27. **Gwyrdd – Mynd i'r afael ag effaith llygredd aer**

    Mae'r mesur hwn yn parhau'n wyrdd. Ni chafwyd unrhyw achosion arwyddocaol o dorri amodau trwydded ansawdd aer yn ystod Chwarter 3.

    Rydym wedi cwblhau prosiect a oedd yn asesu allyriadau amonia o ffermydd moch, dofednod a llaeth yng Nghymru, a bydd yn cael ei ddefnyddio 'nawr fel sail i lywio penderfyniadau polisi yn y dyfodol ynghylch rheoleiddio'r sectorau hyn. Mae'r canlyniadau'n cael eu dadansoddi a bydd y dadansoddiad hwn yn cael ei adrodd yn ôl i Fforwm Rheoli Tir Cymru. Bydd timau polisi yn ymgysylltu â Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r allbynnau hyn.

    Bydd Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar Gynllun Aer Glân i Gymru, a fydd yn cael ei gyhoeddi ym mis Rhagfyr 2019, a byddwn yn ceisio helpu Llywodraeth Cymru i gyflawni'r cynllun ac unrhyw ofynion a osodir arnom.

    Byddwn yn cyflwyno opsiynau yn ymwneud â maint ein gwaith ym maes ansawdd aer i'r Bwrdd ym mis Mawrth. Bydd canlyniad hyn yn cael ei gynnwys yn adroddiad y Chwarter nesaf.

28. **Gwyrdd – Cyflawni Rhaglen Llwybr Arfordir a Llwybrau Cenedlaethol Cymru**

    Mae hon yn rhaglen sydd wedi'i diffinio'n dda a'i sefydlu. Yn dilyn proses ymgeisio, mae pob Swyddog Llwybrau Cenedlaethol wedi derbyn llythyrau cynnig ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf.

    Mae pob un o'r tri arolwg cyflwr a gynlluniwyd fel sail i Gynlluniau Rheoli Rhanbarthol 2019/20 wedi cael eu cwblhau ac mae'r rhai fel sail i Gynlluniau Rheoli Rhanbarthol 20/21 ar y gweill neu bron yn barod. Mae pob un o'r tri Chynllun Rheoli Rhanbarthol a gynlluniwyd wedi cael eu cwblhau mewn fformat drafft terfynol.

    Rydym hefyd yn cyflawni ein hymrwymiadau targed a amlinellwyd yn Strategaeth Hyrwyddo Llwybr Arfordir Cymru 2018-21 a phrosiectau Cronfa Ymgysylltu Twristiaeth Ranbarthol Croeso Cymru, gan gynnwys datblygu teithiau cerdded tri diwrnod a deunydd wedi'i argraffu (sy'n dal yn boblogaidd, yn enwedig yn y diwydiant lletygarwch). Disgwylir y bydd y Strategaeth a'r Cynllun Gweithredu newydd i Hyrwyddo Llwybrau Cenedlaethol Cymru yn cael eu cwblhau ym mis Mawrth 2020.

29. **Gwyrdd – Datblygu ein cytundeb cydweithio ag Iechyd Cyhoeddus Cymru a Chwaraeon Cymru.**

    Mae Partneriaeth Gweithgarwch Corfforol Cymru (WPAP) yn parhau i wneud cynnydd da iawn. Mae ganddi bedwar maes blaenoriaeth: Cyfathrebu; Arsyllfa Gweithgarwch Corfforol; Lleoliadau Addysgol; a Chronfa Iach ac Egnïol.

    Mae'r mesur hwn wedi dychwelyd i wyrdd: cwblhawyd y gwaith Lleoliadau Addysgol ym mis Tachwedd.

Erbyn hyn mae Llywodraeth Cymru wedi lansio strategaeth Pwysau Iach: Cymru Iach, ac mae'r gwaith gweithredu 2 flynedd cychwynnol yn cael ei ddatblygu 'nawr. Mae hon yn ddogfen allweddol i'r Bartneriaeth a bydd yn cael ei defnyddio i ddatblygu Cynllun Gweithgarwch Corfforol CNC.

Yn ystod Chwarter 4, byddwn yn gweithio ar Gynllun Gweithgarwch Corfforol CNC ac yn gweithio gyda'r grŵp i baratoi cynhadledd ar y cyd a fydd yn cael ei chynnal yn chwarter cyntaf 2020/21.

30. **Oren – Paratoi proses lywio a rhaglen Seilwaith Gwyrdd**

Mae datganiad drafft o'r sefyllfa gychwynnol ar Seilwaith Gwyrdd wedi cael ei ddatblygu. Rydym bellach yn canolbwyntio ar sicrhau bod tystiolaeth Seilwaith Gwyrdd yn cael ei hystyried yn briodol yn yr adroddiad SoNaRR2 terfynol a fydd yn cael ei gyhoeddi ym mis Rhagfyr.

Rydym yn cefnogi Llywodraeth Cymru wrth iddi ddatblygu canllawiau ar gyfer awdurdodau cynllunio i wneud Asesiadau Seilwaith Gwyrdd. Bydd y rhain yn sail i'r gwaith o ddatblygu cynlluniau datblygu neu wneud newidiadau iddynt. Rydym yn paratoi canllawiau tystiolaeth a fydd yn helpu i sicrhau bod yr asesiadau, a pholisïau Cynlluniau Datblygu Lleol o ganlyniad, yn adlewyrchu cyfleoedd i adeiladu gwytnwch ecosystemau a'r manteision y maent yn eu darparu o ran Llesiant. Rydym hefyd wedi cael ein comisiynu gan Lywodraeth Cymru i baratoi mapiau a fydd yn sail i'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol terfynol a fydd yn cael ei gyhoeddi yn haf 2020.

Yn ystod Chwarter 4 byddwn yn ystyried pa gefnogaeth ychwanegol sydd ei hangen ar gyfer ein staff a phartneriaid yn y maes gwaith hwn.

**Hyrwyddo busnes llwyddiannus a chyfrifol trwy ddefnyddio adnoddau naturiol heb eu difrodi**

31. **Gwyrdd – Dod â phren sydd wedi'i reoli'n gynaliadwy i'r farchnad**

Rydym wedi parhau i wneud cynnydd â'n cynllun gwerthiant ar gyfer pren sy'n dod i'r farchnad ac rydym wedi cynnal dau arwerthiant electronig yn Chwarter 3. Drwy wneud hyn rydym wedi sicrhau bod mwy o bren na'r disgwyl ar gael i'w werthu. Mae hyn wedi ein galluogi i wella dosbarthiad pren a chontractau gweithio, a bydd hynny yn ei dro'n helpu i wella incwm pren ar gyfer y flwyddyn ariannol. Erbyn diwedd Chwarter 3 roeddem wedi dosbarthu 458,800$m^3$ o bren. Mae prisiau wedi sefydlogi at ei gilydd ar draws y rhan fwyaf o gynnyrch.

Mae'r cynllun marchnata gwerthiant coed ar gyfer 2021- 26 wedi cael ei ailddrafftio. Bydd yn cael ei drafod gyda'n Tîm Gweithredol ac yn cael ei lansio yn y digwyddiad cyswllt â'r diwydiant pren a fydd yn cael ei gynnal ar 18 Chwefror 2020.

Rydym wedi cadw'r ardystiad UKWAS tan fis Hydref 2020 yn dilyn archwiliad ym mis Gorffennaf 2019 a gynhaliwyd gan y Gymdeithas Pridd. Rydym yn gweithio er mwyn cwblhau mân gamau unioni ac arsylwadau ar gyfer yr archwiliad nesaf ym mis Gorffennaf 2020. Er hyn, mae perygl, wrth edrych ymlaen at 2020/21, na fyddwn yn

gallu diweddaru'r nifer gofynnol o Gynlluniau Adnoddau Coedwigoedd erbyn mis Gorffennaf 2020 i fodloni'r gofynion archwilio ar gyfer UKWAS. Er mwyn cywiro hyn, rydym yn edrych ar bob un o'r opsiynau ymgynghorwyr a staff sy'n agored i ni er mwyn sicrhau bod gennym ddigon o adnoddau i ddiweddaru'r cynlluniau.

32. **Gwyrdd – Cyflenwi ein rhaglen ynni adnewyddadwy.**

Mae ein Rhaglen Ynni Adnewyddadwy yn helpu Cymru i gyflawni agendâu Llywodraeth Cymru o ran datgarboneiddio a Thwf Gwyrdd, ac yn cyfrannu at gyflawni targedau ynni adnewyddadwy Llywodraeth Cymru.

Mae'r targed o 344 MW yn nhri chwarter cyntaf y flwyddyn wedi cael ei ddwyn ymlaen o flynyddoedd ariannol blaenorol ac mae'n cynnwys pŵer gwynt ar y tir a gynhyrchir yng Nghefn Croes (58.5MW), Pen y Cymoedd (228 MW) a Choedwig Brechfa (57.4 MW). Bydd targed diwedd y flwyddyn yn cael ei gyflawni pan fydd Clocaenog (96 MW) yn dod yn weithredol yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

Mae'r allbwn trydan dŵr ar raddfa fach o 1.5 MW yn cynnwys 19 o gynlluniau sydd wedi dod yn weithredol hyd yma. Yn anffodus, ni fydd targed eleni ar gyfer trydan dŵr ar raddfa fach, sef 200 kW yn ychwanegol, yn cael ei gyflawni am fod amserlenni adeiladu'r datblygwr wedi llithro; mae hyn y tu hwnt i reolaeth CNC. O ganlyniad, ni fydd y targed yn ei gyfanrwydd yn cael ei gyflawni'n llawn. Fodd bynnag, mae hyn ar raddfa fach iawn o gymharu â'n gwaith ym maes gwynt, ac rydym yn rhagweld y byddwn yn cyflawni 441.5 MW erbyn diwedd y flwyddyn.

33. **Gwyrdd – Cyflawni ein cynllun gweithredu ar gyfer mynd i'r afael â throseddau gwastraff.**

Mae ein cynllun gweithredu ar waith 'nawr. Mae cynnydd da wedi'i wneud ar draws prif amcanion y cynllun gweithredu gan gynnwys digwyddiadau hyfforddi a chyfarfodydd cyswllt partneriaid wedi'u trefnu cyn diwedd mis Mawrth 2020, a chwblhau Strategaeth Gyfathrebu.

Erbyn diwedd Chwarter 4, gobeithio y byddwn wedi cyflawni cynifer o agweddau ar y cynllun gweithredu ag sy'n bosibl gan gynnwys:

- Cyhoeddiadau newydd wedi'u brandio ar fynd i'r afael â gwastraff ym mis Ionawr 2020
- Digwyddiadau hyfforddi ar gyfer pecyn cymorth newydd i asesu symiau o wastraff wedi'u cynllunio ar gyfer Chwefror / Mawrth 2020
- Dosbarth meistr ar ddulliau datrys problemau sy'n seiliedig ar dystiolaeth er mwyn mynd i'r afael â throseddau gwastraff yn cael ei gyflwyno gan Goleg Prifysgol Llundain ddiwedd mis Chwefror
- Ein Hadroddiad ar Fynd i'r Afael â Throseddau Gwastraff, i fod i gael ei gwblhau erbyn mis Mawrth 2020

**Datblygu CNC i fod yn sefydliad rhagorol sy’n darparu gwasanaeth cwsmeriaid o’r radd flaenaf**

34. **Gwyrdd – Parhau i symud ymlaen â’r gwaith o ddatblygu’r sefydliad.**

Ar ôl lansio ein strwythur diwygiedig cyffredinol ar gyfer CNC ar 1 Gorffennaf 2019, daeth ein Rhaglen i Newid y Cynllun Sefydliadol i ben ar 8 Tachwedd 2019.

Mae strwythurau’r holl dimau newydd wedi cael eu sefydlu. Fodd bynnag, y sefyllfa ar 31 Rhagfyr 2019 oedd bod gennym dros 200 o swyddi gwag o hyd: dyma un o’n prif risgiau. Rydym yn gwella ein proses recriwtio ac yn ystyried sut rydym yn marchnata ein sefydliad a sut rydym yn denu pobl i ddod i weithio i CNC.

Bydd ein cwrs hyfforddi #Gweithio i CNC yn cael ei gwblhau gyda phob rheolwr erbyn mis Chwefror. Mae’r cwrs yn ceisio sicrhau ein bod i gyd yn gweithio’n ddiogel yn CNC ac yn cydnabod ein cyfrifoldebau dros lywodraethu da a chydymffurfio. Byddwn hefyd yn ail-lansio ein Rhaglen Gynefino gorfforaethol ar gyfer newydd-ddyfodiaid ym mis Ionawr 2020.

Yn Chwarter 4 byddwn yn cwblhau rhan gyntaf ein cynllun gweithlu, a bydd ail ran yn cael ei datblygu yn 2020/21.

35. **Oren - Gweithredu’r argymhellion ar gyfer llywodraethu ein gwerthiant pren.**

Rydym yn gwneud cynnydd da ac rydym wedi cael adborth da ar ein gwaith yn y maes hwn. Fodd bynnag, gan nad ydym wedi cwblhau ein hyfforddiant Llywodraethu yn y Sefydliad eto, rydym wedi adrodd bod y mesur hwn yn oren. Cwblhawyd hyfforddiant ar gyfer rheolwyr ac arweinwyr timau ym mis Tachwedd, fel y nodwyd yn y mesur blaenorol: dechreuodd hyfforddiant ar gyfer y sefydliad ehangach ym mis Ionawr a bydd yn para tan ddiwedd y Flwyddyn Ariannol – ac o bosibl ymlaen i’r flwyddyn ariannol nesaf.

Mae Ailnegodi Gwerthu Coed sy’n Sefyll ynghyd â chontractau yn parhau, â 30 allan o’r cyfanswm o 34 wedi eu hailnegodi. Ar gyfer y pedwar sydd ar ôl (sy’n 4% o gyfanswm gwerth y contractau), nid ydym wedi gallu bodloni ein hunain bod y negodiadau yn cynnig gwerth am arian i’r pwrs cyhoeddus: mae’n debyg y gadewir y pedwar contract hyn i redeg.

Yn ystod Chwarter 4, byddwn hefyd yn gweithredu newidiadau Camau 4a a 4b i’n Cynllun Marchnata Pren.

36. **Gwyrdd – Boddhad Cwsmeriaid (o ran eu rhyngweithiadau ag CNC)**

Cwblhawyd y Dangosfwrdd ar gyfer boddhad cwsmeriaid ym mis Rhagfyr 2019, ac mae gwybodaeth yn cael ei fewnbynnu’n fisol erbyn hyn.

Yn ystod Chwarter 4, datblygir Fforwm Cynnwys Cwsmeriaid gan ddefnyddio’r rhwydweithiau, fforymau a grwpiau gwrando sy’n bodoli’n barod mewn gwahanol

rannau o CNC.  Bydd y Fforwm yn datblygu cynnig ar gyfer fframwaith ymgysylltu hirdymor.  Disgwylir hefyd y bydd arolwg mewnol ac allanol allweddol yn cael ei gyflwyno yn Chwarter 4: mae'r dull gweithredu cychwynnol yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd.

Mae recriwtio yn dal yn flaenoriaeth i ni ac mae angen recriwtio rheolwr prosiect cyn gynted ag y bo modd.  Mae absenoldeb staff oherwydd salwch hefyd wedi effeithio ar y rhaglen hon.

Byddwn yn parhau i'n hyrwyddo, ein cefnogi a'n herio ein hunain yn fewnol i gynyddu'r gwaith o gynnwys cwsmeriaid yn y cam cynharaf o ran cynllunio'r gwasanaeth, y cynnyrch a'r broses, a hynny er mwyn sicrhau bod ein holl waith yn cael ei seilio ar yr anghenion cyfredol a amlygir dan arweiniad y defnyddiwr. Byddwn yn gwneud rhagor o waith ar y cyd â'r tîm gwelliant parhaus, a hynny trwy'r diwrnodau cynefino a datblygu adrannol, fel ein bod yn ymgorffori'r ffordd hon o weithio a meddwl ledled y sefydliad.

37. Mae yna sawl mesur y mae'r Bwrdd wedi mynegi diddordeb ynddynt y byddwn yn gweithio i'w hadlewyrchu'n llawn yn ein mesurau perfformiad y flwyddyn nesaf.  Mae'r rhain yn cynnwys mesurau o ran Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant a'r Gymraeg, ac ar Lesiant, Iechyd a Diogelwch. Yn ddiweddariad ar gyfer y Bwrdd:
    - Bydd ein Hadroddiad Cydraddoldeb Blynyddol yn cael ei gyhoeddi erbyn mis Ebrill 2020, a bydd yn cynnwys manylion am yr holl nodweddion gwarchodedig. Rydym yn symud ymlaen â'n Cynllun Cydraddoldeb Strategol, ar gyfer 2020-2024, a fydd ar waith erbyn mis Ebrill 2020.  Rydym yn gweithio gyda sefydliadau eraill a ariennir gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu amcanion a rennir ar gyfer y cynllun hwn.
    - Cyhoeddir ein hadroddiad ar y Gymraeg ar gyfer 2019-20 ym mis Medi 2020, a chyn hir byddwn yn cynnal dadansoddiad o'r bwlch sgiliau o ran siaradwyr Cymraeg ledled ein timau newydd.
    - Cyhoeddir ein Strategaeth Llesiant, Iechyd a Diogelwch erbyn diwedd mis Mawrth 2020, ac rydym yn monitro amrywiaeth eang o wybodaeth am Lesiant, Iechyd a Diogelwch yn barhaus, gan gynnwys digwyddiadau colli amser a damweiniau, yn ogystal â'r rheiny a atgyfeirir at RIDDOR.

38. Bydd y Prif Weithredwr yn darparu crynodeb llafar o'r cyflawniadau yng nghyfarfod y Bwrdd, a bydd aelodau o'r Tîm Gweithredol ar gael i ateb cwestiynau.

## Argymhelliad

39. Gofynnir i'r Bwrdd graffu ar yr adroddiad ar berfformiad yn ystod Chwarter 3 a chytuno arno, a hynny cyn iddo gael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

## Y Prif Risgiau

40. Os nad yw'r wybodaeth am berfformiad a ddarperir yn adlewyrchu'r cynnydd tuag at Amcanion Corfforaethol/y Cynllun Busnes yn fanwl gywir, yna ni fydd y Bwrdd yn gallu cyflawni ei rôl o graffu ar gyflawniad CNC.

## Y camau nesaf

41. Bydd yr adroddiad ar berfformiad yn cael ei gyflwyno i Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, a'i gyhoeddi ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru.

## Goblygiadau Ariannol

42. Nid oes goblygiadau ariannol arwyddocaol o ran darparu'r adroddiad ar berfformiad ei hun; fodd bynnag, mae rhan o'n hadolygiad chwarterol yn amlwg yn ystyried dyraniad ein hadnoddau, ac felly mae cyswllt agos rhwng y papurau cyllid a'r papurau perfformiad.

## Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

43. Mae'r asesiad perthnasol o'r effaith ar gydraddoldeb yn cwmpasu ein Datganiad Llesiant, ein Cynllun Busnes ar gyfer 2019/20 a'n Cynllun Corfforaethol hyd at 2022, a chafodd ei ddiweddaru ym mis Mawrth 2019.

## Mynegai o Atodiadau

44. Atodiad A – Dangosfwrdd Chwarter 3